

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llandderfel a Swyddogion Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned a swyddogion Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd Nos Lun, Chwefror 8fed 2021 drwy gyfrwng Zoom i drafod y sefyllfa graeanu a biniau halen. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Gary Thomas, Eifion Davies, Bethan Thomas, Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, y cyng. Elwyn Edwards, Steffan Jones (CG), Adrian Williams (CG) a'r clerc.

Eglurodd y clerc bod y cynghorwyr a'r clerc wedi derbyn nifer o gwynion dros yr wythnosau diwethaf am y diffyg graean ar gyfer y ffyrdd gweledig yr ardal gan eu gadael yn beryg iawn i'r gyrwyr, gyda rhai yn ofn mentro allan rhag iddynt gael damwain. Roedd y mater wedi cael eu hamlygu wrth i weithlu Cyngor Gwynedd gasglu'r biniau halen gwag. Roedd nifer o'r trigolion yma wedi cysylltu â'r Cyng. Elwyn Edwards a'r Adran Briffyrdd yn uniongyrchol hefyd. Roedd y sefyllfa yn un bryderus iawn gan nad oedd y cynghorwyr eisiau sefyllfa'n codi lle byddau ambiwlans neu injan dan yn methu mynd i leoliad oherwydd cyflwr y ffyrdd. Cyfeirwyd at yr addewid a wnaed gan y swyddogion priffyrdd yn 2019, mewn cyfarfod gyda'r clerc a'r Cyng. Elwyn Edwards, i raeau ffyrdd ail flaenoriaeth unwaith y dydd. Nid oedd yn amlwg fod hyn yn cael ei weithredu ym mhob ardal hyd yn hyn y gaeaf yma.

Diolchodd Steffan Jones am y cyfle i drafod gyda'r Cyngor. Cadarnhaodd fod trefniant mewn lle i raeau ffyrdd ail flaenoriaeth unwaith y dydd ac nid yn ystod y nos ond fod y gyrwyr wedi nodi eu pryderon am wneud hyn mewn rhai ardaloedd. Cwestiynodd y Cyng. Elwyn Edwards os mae oherwydd oblygiadau ar eu hyswiriant personol oedd y gyrwyr yn gwrthod mynd ar y ffyrdd mwyaf serth? Eglurodd Steffan Jones for y gyrwyr yn derbyn hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y math yma o waith ac felly gyda'r sgiliau i gario allan y gwaith. Cadarnhaodd fod y swyddog yswiriant yn edrych i mewn i'r oblygiadau ar bolisiau yswiriant personol y gyrwyr os byddant yn cael damwain.

Eglurodd Steffan Jones fod biniau halen wedi cael ei ail-leoli yn dilyn y pryderon a godwyd gan y trigolion lleol ond mae ateb byr dymor oedd hyn tan y byddant yn gallu sicrhau offer a cherbydau pwrpasol i raeau'r ffyrdd ail flaenoriaeth. Ateggodd Adrian Williams y bwriedi'r cydweithio gyda'r peirianwyr graeanu drwy deithio ar hyd y ffyrdd ail flaenoriaeth yma a gwneud asesiad risg er mwyn gwella'r gwasanaeth. Roedd cyfyngiadau Covid wedi eu rhwystro i wneud hyn hyd yn hyn.

Eglurodd y Cyng. Elwyn Edwards ei fwriad i roi cynnig ger bron Cabinet Cyngor Gwynedd i ystyried ail gyflwyno'r blychau halen yn Wardiau Llandderfel a Llanycil. Nododd Steffan Jones ei ansicrwydd y byddai'r Cabinet yn cytuno i hyn am fod dros hanner y cynghorau cymuned a thref wedi cytuno i dalu am lenwi eu biniau halen.

Cytunodd y swyddogion i anfon mapiau a oedd yn dangos y ffyrdd ail flaenoriaeth a oedd yn cael eu graeanu ganddynt a hefyd copi o fap a oedd yn dangos lleoliadau'r biniau halen er mwyn i'r cynghorwyr cymuned cael trafod ymhellach os oedd posib lleihau'r nifer.

Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod ac am y drafodaeth.